

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 26/05/20 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), W.T.Owen, I.C.Thomas, R Thomas, C.Williams

1.Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd W.R.Owen, J.W.Parry

Nododd y Clerc fod y Cyngorydd W.R.Owen yn dymuno gorffen eistedd ar y pwyllgor, a bod y Clerc wedi hysbysu holl aelodau'r Cyngor yn datgan hynny.

2.Datgan Buddiant Personol

Dim.

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd – adroddiad ysgrifenedig ar Parc Coed Helen er mwyn cael penderfyniad ar nifer o faterion.

Nodwyd:

(I) Rhaglen Waith

- (1) Bod Rhaglen Waith wedi ei baratoi o ran trosglwyddo Parc Coed Helen, a bod y ddogfen wedi ei ddsbarthu efo'r rhaglen.
- (2) Bod sawl mater sydd angen penderfyniad arno gan y pwyllgorau, Gwaith, Personel a Chyllid. Wrth wneud y penderfyniad roedd angen sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwblhau'r holl waith yn y Rhaglen Waith yn cynnwys bod angen trefn o ran:

- glanhau toiledau;
- glanhau ystafelloedd newid;
- archwilio a thrwsio'r offer ar y safle;
- gofalu o ran agor cyfleusterau;
- system mewn lle yn y swyddfa i reoli'r parc ac i reoli'r lleoliadau;
- gwagio'r peiriannau parcio.

Nodwyd nad oedd y pwyllgor yn fodlon cymeradwyo sustem lle mae rhaid i ni wagio arian o'r peiriannau parcio, a'i bod yn awyddus i'r peiriannau dderbyn cardiau yn unig.

Penderfynwyd gofyn i'r Dirprwy Glerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd yn datgan fod y Cyngor Tref yn awyddus i gael peiriannau oedd yn derbyn cardiau yn unig yn hytrach nag arian.

(II) Staff

- (1) Bod angen darganfod ffordd i wneud dyletswyddau'r swydd roedd deilydd presennol y swydd yn ei wneud, ond roedd rhai materion ymarferol angen eu goresgyn.
- (2) Bod Swydd Ddisgrifiad a Chontract draft ar gyfer "Gweithiwr Cynnal Eiddo" i'r Cyngor Tref wedi eu paratoi. Byddai hyn yn un ffordd o gyflawni'r gwaith anghenrheidiol ac yn rhoi mwy o allu i'r Cyngor gwblhau gwaith o amgylch y dref.

Nodwyd ymhellach:

- (1) Y dylai'r Swydd Ddisgrifiad gyfarch y ffaith y dylai'r oriau fod dros 7 diwrnod yr wythnos.
- (2) Y bydd natur a dyletswyddau'r swydd yn newid yn ystod y flwyddyn, hynny yw y byddai mwy o ddyletswyddau yn ystod misoedd yr Haf.

Cafwyd trafodaeth ar y fath o swydd oedd ei angen, yr oriau gwaith ac yn y blaen gan nodi mai penderfyniad y Pwyllgor Personél fyddai hyn.

Penderfynwyd:

- (1) Gofyn i'r Pwyllgor Personél ystyried opsiynau ar gyfer Swydd Ddisgrifiad ar gyfer "Gweithiwr Cynnal Eiddo", a fydd yn cynnwys pethau amrywiol fel glanhau toiledau, glanhau ystafelloedd newid, cynnal a chadw offer ar y safle, trefnu / gofalu am y cyfleusterau a llogi'r cyfleusterau.**
- (2) Ystyried sut fyddai'r swydd yn clymu i mewn efo dyletswyddau'r Swyddog Cynnal a Chadw presennol.**

(III) Prydles ar gyfer y Clwb Criced / Torri Glaswellt a Cynnal a Chadw'r Tir

- (1) Bod angen cytundeb rhwng y Cyngor a'r Clwb Criced iddynt barhau i ddefnyddio Parc Coed Helen.
- (2) Bod y Clwb Criced yn gofyn am brydles 20 mlynedd sydd yn newid mawr i'w prydles presennol, sy'n un tymhorol. Roeddynt hefyd yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn fodlon cynnwys y llain griced o dan eu polisi yswiriant.

Gofynnwyd a fyddai caniatáu prydles o 20 mlynedd yn rhwystro digwyddiadau gymryd lle ym Mharc Coed Helen, er enghraifft Race for Life, a bod angen trafod hyn efo'r Clwb Criced.

Nodwyd ymhellach:

- (1) Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol ei bod yn debygol y bydd rhaid mynd i broses Tendr swyddogol am y gwaith yma yn hytrach na dim ond gofyn am 3 dyfynbris.
- (2) Os rydym yn trosglwyddo yn yr Hydref neu'r Gaeaf yna mi fydd yn bosib trosglwyddo cyn cwblhau'r broses yma gan nad ydi glaswellt yn tyfu yn gyflym iawn yn y Gaeaf. Yn y cyfamser, mae Cyngor Gwynedd yn fodlon i gynnig pris am doriadau fesul un.
- (3) Y byddai'n fuddiol cael map o derfynau'r tir.

Cafwyd trafodaeth o ran pa mor aml roedd Cyngor Gwynedd yn torri'r gwair.

Penderfynwyd:

- (1) **Trafod efo'r Clwb Criced cyn gynted ag y bo'n ymarferol os oeddynt yn barod i dorri gwair ar holl safle Parc Coed Helen ar yr amod eu bod yn cael prydles 20 mlynedd ar y Clwb.**
- (2) **Yn dilyn i'r drafodaeth a gyfeirir ato yn (1) gymryd lle, y dylid symud ymlaen i wahodd tendrau ar gyfer Torri Glaswellt a Cynnal a Chadw'r Tir. Gellid ystyried opsiynau posib er enghraifft cael pris fesul toriad neu torri'r gwaith i fyny i becynau llai.**
- (3) **Ymgynnnull cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith, yn ôl yr angen.**

(IV) Prydles ar gyfer tenant y fflat

- Bod angen i'r brydles ar gyfer tenant y fflat fod yn barod i'w arwyddo cyn y bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi 3 mis o rybydd i'r tenant.
- Bod angen penderfyniad a fyddai'r Cyngor Tref yn cynnig tenantiaeth i'r deilydd presenol, lefel y rhent ac hefyd caniatad i fynd at gyfreithiwr i lunio tenantiaeth.
- Bod y denantiaeth bresenol, sydd yn denantiaeth ynghlwm gyda swydd, ac felly ar llai na gwerth y farchnad.

Penderfynwyd:

- (1) **Datgan fod y pwyllgor yn fodlon i ddeilydd presennol y fflat i barhau i fyw yno.**
- (2) **Gofyn am arolwg o werth farchnad y rhent ar y fflat yn y parc. Dylid symud ymlaen yng ngoleuni'r hyn sy'n cael ei benderfynu.**
- (3) **Gofyn i Gyfreithiwr y Cyngor Tref i lunio tenantiaeth ar ôl derbyn a thrafod gwerth rhent y farchnad, ac i edrych ar yr holl ddogfennau megis Pen Termau, Cytundeb Trwsio Offer ac yn y blaen.**

(V) Amserlen

- (1) Bod yr amserlen i drosglwyddo i Gyngor Gwynedd erbyn y 1af o Hydref 2020 yn uchelgeisiol, oherwydd maint y gwaith, amserlen pwyllgorau a'r angen i Wynedd rhoi tri mis o rybydd i'r tenant.
- (2) Erbyn hyn bod Cyngor Gwynedd yn awgrymu y byddai'r 1af o Ionawr 2021 yn ddyddiad fwy tebygol o ran y trosglwyddiad. Mae hyn hefyd yn uchelgeisiol, ond dylai fod yn bosib.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

(VI) Parc Sglefrio

Penderfynwyd gofyn i'r Dirprwy Glerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ddatgan fod y pwyllgor yn dymuno cael cytundeb tebyg i'r un am yr offer chwarae ar gyfer yr offer parc sglefrio.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.15 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____